**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 22 Mawrth 2021 am 10.00 am ym Virtual.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hopkins Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd S. Rees-Owen Y Cynghorydd E Griffiths

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Ms S Edwards, Service Manager, Children's Services

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

### 29 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser a R. Yeo

### 30 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

### 31 Cofnodion

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 25 Ionawr 2021 yn rhai cywir.

### 32 Adroddiad Blynyddol 2019-20 - Ansawdd Gofal y Gwasanaeth Maethu

Diolchodd Rheolwr y Gwasanaeth i Aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y cyfle i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ansawdd Gofal y Gwasanaeth Maethu. Yn

gyntaf, ymddiheurodd y Swyddog am yr oedi wrth gyflwyno'r adroddiad, gan esbonio fod hynny'n ganlyniad i ofynion ymateb i'r Pandemig COVID-19.

Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth fod yr Adroddiad Ansawdd Gofal yn cael ei lunio yn unol â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rheoliad 52 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Cydnabu'r aelodau hefyd ei bod yn ofynnol i reolwr yr awdurdod lleol roi trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Parhaodd Rheolwr y Gwasanaeth gan roi gwybod i'r Aelodau am strwythur staffio cyfredol y gwasanaeth. Esboniodd bod y gwasanaeth yn cynnwys pedair carfan ar hyn o bryd:

- Carfan Recriwtio Rhanbarthol;
- Carfan Lleoli ac Asesu;
- Carfan Asesu Gofal gan Berthynas;
- Carfan Cymorth Materion Maethu.

Mewn perthynas â chyflawni gwasanaeth, roedd cynnydd o ran cynnal y cynhalwyr ac ymgynghori, addysg a sefydlu'r drws ffrynt rhanbarthol yn dda iawn i'w weld.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth drosolwg i'r Aelodau o ansawdd y Gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar draws y carfanau maethu. Mae modd dod o hyd i hyn ym mhedair adran ganlynol yr adroddiad:

1. Mae pobl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, mae ganddyn nhw ddewis am eu gofal a chymorth, ac mae cyfleoedd ar gael iddyn nhw;
2. Mae pobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u lles cyffredinol
3. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
4. Mae pobl yn byw mewn llety sy'n cynnal ei lles yn y ffordd orau ac yn eu helpu i gyflawni eu deilliannau personol.

Amlygodd Rheolwr y Gwasanaeth fod rhieni maeth yn cael eu hannog i gyfranogi o gyfleoedd dysgu a datblygu, ac mae hyn yn gweithio'r ddwy ffordd. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae Gwasanaeth Maethu RhCT wedi cynnal cyfres o achlysuron ymgynghori lle rydyn ni wedi casglu barn rhieni maeth a'u profiadau er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Cafodd yr aelodau eu diweddaru hefyd ynglŷn â’r rhaglen Maethu Lles, y Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Roedd aelodau'n falch o weld bod RhCT wedi ymrwymo i sicrhau bod y fframwaith newydd hwn yn cael ei gyflwyno i'n cynhalwyr.

Daeth Rheolwr y Gwasanaeth a'i hadroddiad i ben trwy esbonio y bydd Gwasanaethau i Blant RhCT yn parhau i sicrhau bod cymorth ar gael i blant, rhieni maeth a theuluoedd, a chyflwynodd flaenoriaethau'r flwyddyn i ddod i'r aelodau, sef:

- Ymgynghoriadau - Gwella systemau adrodd a gwella dealltwriaeth o brofiadau rhieni maeth, pobl ifainc a rhieni;
- Proffiliau Rhieni Maeth - Ar gael i bobl ifainc mewn fformat sy'n addas i blant, a'r gweithwyr cymdeithasol, i wella'r broses baru;
- Iechyd ac Addysg - Gwella sut y mae modd casglu data a chyfrannu at y broses fonitro;

- Rhieni Maeth Arloesol - Annog datblygiad a chysylltiadau ag addysg a darparu cyngor ac arweiniad i rieni maeth;
- Hyfforddiant Rhieni a Phlant - Annog rhieni maeth cyfredol i drosglwyddo i'r ddarpariaeth hon;
- Ymgyrchoedd recriwtio - Asesu a recriwtio rhieni maeth yn lleol;
- Gofal gan Berthynas - Monitro'r adnoddau sydd ar gael i ymateb i'r galw;
- Panel Maethu - Digwyddiad hyfforddi blynyddol i gefnogi rôl Sicrhau Ansawdd y panel maeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei hadroddiad ac agorodd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Dywedodd un Aelod ei fod yn falch o weld sefydlu'r garfan Asesu Gofal gan Berthynas ac eglurodd fod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc wedi derbyn adroddiad yn ddiweddar mewn perthynas â Gofal gan Berthynas a ddaeth gerbron y Pwyllgor o ganlyniad i Rybudd o Gynnig a oedd wedi dod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Roedd yr Aelod eisiau sicrwydd gan Swyddogion y byddai unrhyw waith diweddaru yn y gwasanaeth yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu i'w drafod ymhellach.

Cyfeiriodd Aelod arall Swyddogion at Dudalen 18 yr adroddiad. Roedd eisiau eglurhad mewn perthynas â'r prosiect maethu lles. Gofynnodd yr Aelod a allai'r Bwrdd dderbyn data i dystio i'r canlyniadau wrth adrodd yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth bellach Aelodau **PENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad a derbyn diweddariadau maes o law.

**33 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**34 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Rhagfyr 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad

| | |
|---|---|
| **Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified** | **Cllr G Hopkins<br>Cadeirydd.** |